Adroddiad ar

Ysgol Y Gelli

Ffordd Bethel
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1DU

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Gelli

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Gelli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 230 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 173 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 29 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 4.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 11.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 92.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Pennaeth dros dro yn Chwefror 2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/12/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Gelli yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol lle mae arweinwyr wedi meithrin gweledigaeth glir i greu amgylchedd dysgu hapus. Mae perthnasoedd gwaith cryf rhwng staff a disgyblion yn creu ymdeimlad o berthyn a pharch. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. O’r cychwyn cyntaf, mae disgyblion yn chwilfrydig ac yn hyderus wrth wynebu heriau. Mae’r rhan fwyaf yn cydweithio’n dda ac yn dangos empathi.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae medrau gwrando a chyfathrebu'r disgyblion yn gryf ac maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu’n effeithiol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae dealltwriaeth fathemategol a medrau digidol y disgyblion yn datblygu’n gadarn. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn galluogi i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn gydlynus mewn ystod gyfoethog o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon wedi dechrau datblygu cwricwlwm sy’n cwmpasu’r meysydd dysgu a phrofiad i gynnig ehangder o brofiadau i’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm wedi ei datblygu’n llawn, ac o ganlyniad, nid oes cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion gymhwyso eu medrau mewn ystod o brofiadau ysgogol ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio’n annibynnol ar eu tasgau. Mae’r berthynas waith gadarn yn golygu bod disgyblion yn ymateb yn amserol i adborth er mwyn gwella eu gwaith. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu’n ddysgwyr gwbl annibynnol a chwilfrydig.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae’r pennaeth mewn gofal yn caffael barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ac yn gweithredu’n  amserol ar y canfyddiadau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Datblygu cwricwlwm ysgogol sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso ystod lawn o fedrau yn fwriadus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2. Darparu cyfleoedd i herio disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Y Gelli yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol. Mae arweinwyr wedi cydweithio'n llwyddiannus i greu gweledigaeth gytûn yn seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o berthyn a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned yr ysgol.

Mae'r berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff yn gryfder amlwg. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion ac maent yn cefnogi disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu yn awchus o'u cyfnod cynharaf ac yn datblygu chwilfrydedd a hyder wrth wynebu heriau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n arbennig ac yn dangos empathi tuag at ei gilydd. Mae'r staff cymorth yn cefnogi dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu at ymddygiad da iawn y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a chyfathrebu yn hynod o effeithiol trwy gyfleoedd perthnasol sy'n eu hannog i uniaethu â'u dysgu. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae'r holl staff yn bwydo iaith gyfoethog ac yn defnyddio storïau a chaneuon i atgyfnerthu patrymau iaith. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron bob disgybl yn gwrando gyda pharch ar safbwyntiau eraill. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol, gan drafod eu gwaith yn ddeallus ac yn hyderus.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan alluogi'r rhan fwyaf ohonynt i ymchwilio'n hyderus i wybodaeth a chysyniadau ar draws y cwricwlwm. Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol, gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer datblygiad pellach. Ar frig yr ysgol, mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn darllen gyda mynegiant cadarn ac yn dehongli testunau'n effeithiol. Mae gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol fedrau ysgrifennu cadarn, ac maent yn cyflwyno eu gwaith mewn amrywiaeth o ffurfiau, yn bennaf mewn gwersi iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ac adeiladu ar eu medrau rhif yn briodol ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd eu cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu amrediad buddiol o fedrau mathemategol yn gadarn. Yn yr arferion gorau, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau pwrpasol. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o

ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio technoleg yn hyderus i gofnodi eu dysgu a phan gânt y cyfle, maent yn cymhwyso eu medrau digidol yn briodol mewn ychydig o gyd-destunau addas. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi llawer o'r disgyblion i gymhwyso eu medrau yn gydlynol ac yn fwriadus mewn ystod gyfoethog o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella drwy amrywiaeth o brosesau hunanwella. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn hynod effeithiol. Maent yn ymgymryd yn drwyadl ag amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol ac yn cydweithio â'r ysgol i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau ynghyd â blaenoriaethau gwella'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwella bob tro'n canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y gweithredoedd ar gynnydd y dysgu a'r addysgu.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn arbennig o dda. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi magu perthynas agos â chartref yr henoed ac ysgol arbennig leol. Mae hyn wedi datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion i fod yn ddinasyddion gwybodus am eu cymuned a pharchu anghenion a hawliau pobl eraill.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau ar y gwaith o ail-lunio'r cwricwlwm sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad ac yn cynnig ehangder. Fodd bynnag, nid yw gweledigaeth y cwricwlwm wedi ei datblygu'n llawn gan gynnig cwricwlwm pwrpasol, ysgogol i Ysgol Y Gelli. O ganlyniad, nid oes cyfleoedd dysgu cyffrous cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn fwriadus ac yn adeiladol ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio ar eu tasgau yn annibynnol, o fewn parau a grwpiau bychain. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion wrth iddynt gydweithio. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu yn annibynnol wedi eu datblygu'n llawn. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae gor-gyfarwyddo gan oedolion yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n ddysgwyr gwbl annibynnol a chwilfrydig.

Mae'r ardaloedd dysgu yn cynnwys nifer o weithgareddau lliwgar a difyr sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chydweithiol y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella o fewn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth llafar maent yn ei dderbyn gan staff.

Mae'r systemau i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu yn flaengar iawn ac mae arweinwyr wedi datblygu system dracio gynhyrchiol ar gyfer olrhain cynnydd y disgyblion.

Golyga hyn fod ymyraethau pwrpasol yn cael eu cynnig a'u gweithredu ac mae'r berthynas rhwng yr ysgol ac asiantaethau allanol yn gryf. Defnyddir staff cynorthwyol yn fwriadus i weithio ar dargedau unigol disgyblion ac i sicrhau cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae staff yn sicrhau bod trefniadau pontio pwrpasol i gefnogi disgyblion wrth drosglwyddo o ddosbarth i ddosbarth, rhwng y cylch meithrin ac wrth symud i'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn hyderus wrth drosglwyddo o un cam dysgu i'r llall.

Mae'r pennaeth mewn gofal yn ystyriol o faich gwaith staff ac wedi datblygu prosesau i'w cefnogi, er enghraifft drwy ryddhau athrawon i gyd-gynllunio a darparu sesiynau ar y cyd gydag ysgol gyfagos i hybu lles emosiynol staff.

Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio parhaus yn hybu gwerthoedd yr ysgol yn gadarnhaol. Mae'r pennaeth mewn gofal yn caffael barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr am agweddau o fywyd yr ysgol ac mae'n gweithredu ar y canfyddiadau, gan rannu gwybodaeth am y datblygiadau'n amserol.

Mae gan arweinwyr systemau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol â swyddog lles y clwstwr er mwyn ymateb yn rhagweithiol i hyrwyddo presenoldeb. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025